


Adroddiad Blynyddol 2018/19

Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

Mae sefydliadau cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn wedi cytuno i gydweithio o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, a hynny trwy'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Mae aelodau'r Bwrdd yn frwdfrydig dros newid ac yn arddangos parodrwydd i gydweithio ar brosiectau er mwyn gwireddu amcanion y Cynllun Llesiant Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r Cynllun Llesiant yn nodi 6 blaenoriaeth sy'n berthnasol i'n cymunedau ar hyn o bryd ac i'r dyfodol. Bellach mae is-grwpiau wedi eu sefydlu er mwyn ymateb i'r meysydd blaenoriaeth.



Mae blwyddyn wedi mynd heibio ers i'r Cynllun Llesiant gael ei gyhoeddi, a dyma gyflwyno adroddiad sy'n amlinellu'r hyn a gyflawnwyd dros y flwyddyn ddiwethaf yn unol â'r blaenoriaethau a osodwyd ynddo. Mae'r adroddiad blynyddol yn amlygu bod gwaith o ddatblygu'r cynlluniau gweithredu wedi cychwyn gan y Bwrdd a bod gwaith pellach angen ei wneud yn y meysydd gwaith penodol. Gan edrych ymlaen at flwyddyn 2019/20 ac ymhellach byddwn yn parhau i gydweithio hefo'n partneriaid a'n trigolion i gyfrannu at amcanion Llesiant y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus.

“Mae hi wedi bod yn ffrainc cael cadeirio Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn. Mae'r aelodau wedi ymroi i waith y Bwrdd yn ystod y flwyddyn ddiwethaf. Ar gychwyn y broses holwyd pobl Gwynedd ac ynys Môn am eu barn ar yr hyn sy'n bwysig iddynt yn eu cymunedau, a defnyddiwyd y canfyddiadau hynny i lunio rhaglen waith y Bwrdd ar ffurf y Cynllun Llesiant. Mae'r isod yn dystiolaeth bod y Bwrdd wedi gwrando ar y sylwadau a gyflwynwyd. Megis cychwyn ar y gwaith yr ydym ond rydym yn ffyddiog ein bod ar y trywydd iawn i gyflawni ein huchelgais, gan sicrhau bod ein penderfyniadau yn addas ar gyfer cenedlaethau'r dyfodol”.

Ffion Johnstone

Cadeirydd Bwrdd Gwasanaethau

Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn

Adroddiad Blynyddol 2018/19

Sut mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wedi gweithredu?

Cyhoeddwyd y Cynllun Llesiant ym 2018. Ceir gadarnhad yn y Cynllun Llesiant o'r ddau amcan a chwe maes blaenoriaeth ble gytunwyd gall y Bwrdd gydweithio i sicrhau'r canlyniadau gorau i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn. Cytunwyd felly ar feysydd blaenoriaeth sy'n gyffredin yn y ddwy Sir a bydd y Bwrdd yn ymateb i'r materion yma ar y cyd ar draws y ddwy Sir. Er mwyn symud y gwaith yn ei flaen o fewn y meysydd blaenoriaeth mae is-grwpiau wedi eu sefydlu. Cyfeirir isod at y blaenoriaethau.

Amcan 1: Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor

Blaenoriaethau: Yr Iaith Gymraeg

Cartrefi ar gyfer pobl leol

Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau


Effaith newid hinsawdd ar lesiant cymunedau

Amcan 2: Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da






Blaenoriaethau: Iechyd a gofal oedolion

Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc

Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf mae'r Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus a'r is-grwpiau wedi gweithredu yn unol â'r pum egwyddor datblygu gynaliadwy cenedlaethol (isod). Cytunodd y Bwrdd eu bod am ychwanegu dwy egwyddor sy'n bwysig i drigolion Gwynedd ac Ynys Môn Sef yr Iaith Gymraeg a Chydraddoldeb. Bydd pob un o'r is-grwpiau yn sicrhau bod yr iaith Gymraeg yn llinyn euraidd sy'n rhedeg drwy eu gwaith. Bydd yr is-grwpiau hefyd yn parhau i roi sylw i anghydraddoldeb ac anfantais trwy'r asesiadau effaith perthnasol. Mae'r egwyddorion yma yn creu fframwaith i'r Bwrdd gydweithio ar y blaenoriaethau, ystyried y gwersi a ddysgwyd o gamau gweithredu'r gorffennol a mynd i'r afael â rhai heriau bydd y gwasanaethau cyhoeddus yn eu hwynebu i'r dyfodol.



Amcan 1: Cymunedau sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir-dymor

 Cydweithio  Hir-dymor  Cynnwys  Iaith Gymraeg  Cydraddoldeb		
Y Flaenoriaeth	Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Effaith bosib yn y Tymor byr, Canolig a Hir
<p>Iaith Gymraeg - Byddwn yn cydweithio i gynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus yng Ngwynedd ac Ynys Môn. Byddwn yn hyrwyddo defnydd o'r iaith Gymraeg fel yr iaith ddewis ar gyfer cyfathrebu ymysg sefydliadau cyhoeddus ar draws y ddwy sir.</p>	<p>Mae'r Is-grŵp Iaith Gymraeg wedi ei sefydlu a chytunwyd i ganolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol:</p> <ol style="list-style-type: none"> Rhannu arferion da ymysg y cyrff cyhoeddus Gwella profiad y dinesydd Mae'r Bwrdd yn cydnabod bod anghysondeb yn y ffyrdd mae'r gwasanaethau cyhoeddus yn darparu gwasanaethau dwyieithog yng Ngwynedd ac Ynys Môn, sy'n golygu nad ydi hi bob amser yn bosib i drigolion ddefnyddio'r Gymraeg yn rhwydd wrth gyfathrebu efo cyrff cyhoeddus. Taith ieithyddol Plentyn a pham nad yw rhai yn dal eu gafael ar yr iaith. Mae parhad o ddefnydd yr iaith i genedlaethau'r dyfodol yn bwysig i'r is-grŵp a byddent yn cydweithio gyda sefydliadau sydd eisoes yn gwneud gwaith yn y maes pwysig yma er mwyn cynllunio ar gyfer y dyfodol. 	<p><u>Tymor byr</u> Newid arferion ieithyddol y cyfathrebu yng ngweithleoedd y cyrff cyhoeddus.</p> <p><u>Tymor Canolig</u> Cynyddu'r defnydd o'r iaith Gymraeg o fewn cyrff cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn.</p> <p>Cynyddu'r defnydd o'r Gymraeg fel cyswllt cyntaf gyda gwasanaethau o'r cyrff cyhoeddus. .</p> <p><u>Tymor Hir</u> Cynyddu'r defnydd o Gymraeg o fewn ein cymunedau ehangach sy'n allweddol i ffyniant yr iaith.</p>

O'r 3 maes gwaith uchod penderfynodd yr Is-grŵp flaenoriaethu prosiect sy'n canolbwyntio ar arferion ieithyddol ymysg staff rhai o sefydliadau'r Bwrdd. Mae hyn yn cael blaenoriaeth gan y grŵp gan eu bod yn cydnabod y gall y gweithlu gynnig cyfleodd i ddefnyddio, ymarfer a dysgu'r Iaith Gymraeg. Felly mae prosiect o'r teitl 'Arfer' wedi ei gymeradwyo gan y Bwrdd sy'n ceisio datblygu dealltwriaeth pam nad yw rhai pobl yn gwneud defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle a'r bwriad yw cydweithio ar yr ymyriadau, gyda'r nod o annog mwy o ddefnydd o'r Gymraeg o fewn y cyrff cyhoeddus.

Fel y gwyyddom bellach, mae'r Llywodraeth wedi gosod targed o greu miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac mae'r defnydd o'r Gymraeg yn y gweithle yn cael lle amlwg yn y strategaeth yma. Mae'r Bwrdd yn rhannu'r weledigaeth ac yn cydnabod bod cynyddu'r niferoedd sy'n gallu siarad Cymraeg ac yn gwneud defnydd ohono yn allweddol i ffyniant yr Iaith.

Sut y byddwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Cymru Lewyrchus



Cymru sy'n fwy cyfartal



Cymru o gymunedau cydlynus



Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu





Cydweithio



Hir-dymor



Cynnwys



Iaith Gymraeg




Cydraddoldeb

Y Flaenoriaeth	Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Effaith bosib yn y tymor byr, canolig a hir
<p>Cartrefi ar gyfer pobl leol- Byddwn yn cydweithio gyda'r sector dai i sicrhau mwy o gartrefi addas a fforddiadwy yn y llefydd cywir er mwyn diwallu anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio i sicrhau bod cartrefi yn rhai o ansawdd sy'n cwrdd ag anghenion trigolion.</p>	<p>Sefydlwyd yr Is-grŵp cartrefi ym Mehefin 2018 i annog y cydweithio rhwng sefydliadau o fewn y sector dai.</p> <p>Mae'r ddwy sir yn bresennol yn cynllunio i ddatblygu tai arloesol. Mae'r is-grŵp yn cynnig dod â chynlluniau'r cyrff cyhoeddus ynghyd, a sefydlu trefniadau i gydweithio er mwyn ystyried nifer llai o fodelau arloesol ond hefyd i gyflawni arbedion maint sydd yn y pen draw yn gwneud defnydd mwy effeithiol o'n hadnoddau. Rhai enghreifftiau o dai arloesol sydd wedi eu hystyried gan yr is-grŵp fel a ganlyn:</p> <ol style="list-style-type: none"> 1. Adeiladau o ffrâm bren/ modwlar 2. Modelau adeiladau blaengar, ynni isel 3. Dulliau cymunedol amgen sy'n byw gyda dŵr; e.e. tai sy'n mynd i fyny ac i lawr ar hytrawstiau yn unol â lefelau'r dŵr. <p>Yn ogystal mae'r is-grŵp wedi cychwyn y broses o adnabod safleoedd datblygu addas ar gyfer y modelau cartrefi arloesol hynny ar draws Gwynedd a Môn a bwriedir cael eu pecynnu gyda'i</p>	<p><u>Tymor Byr</u> Yn y lle cyntaf bydd cydweithio hefo'n cymunedau a'n partneriaid ar gynllunio tai arloesol yn ein cymunedau.</p> <p><u>Tymor Canolig</u> Datblygu prosiectau tai arloesol yng nghymunedau Gwynedd ac Ynys Môn</p> <p><u>Tymor Hir</u> Cartrefi newydd ynni effeithiol a fforddiadwy yn cael eu datblygu.</p> <p>Cynnydd mewn effeithlonrwydd ynni a ddaw yn sgil cyflwyno tai o fodelau arloesol. Cyfrennir hyn yn gadarnhaol ar y newid yn ein hinsawdd ac effaith gadarnhaol ar dlodi tanwydd.</p>

	<p>gilydd i gyflawni arbedion maint,, ac felly lleihau'r gost adeiladu fesul uned</p>	<p>Yn y tymor hir mae'r grŵp yn ystyried defnyddio modelau arloesol i ddarparu tai ar gyfer ein poblogaeth sy'n heneiddio. Buasai hyn hefyd yn mynd i'r afael â dyheadau trawsnewid o fewn y sector iechyd.</p>
--	---	---

Sut y byddwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol





Cydweithio



Hir-dymor



Integreiddio



Cynnwys



Atal



Iaith Gymraeg



Cydraddoldeb

Y Flaenoriaeth	Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Effaith bosib yn y Tymor Byr, Canolig a Hir
<p>Effaith Newid Hinsawdd ar lesiant ein cymunedau: Byddwn yn cydweithio yn lleol ac yn gweithredu ar y cyd i geisio lliniaru effaith newid hinsawdd ar ein cymunedau.</p>	<p>Mae'r Bwrdd wedi sefydlu is-grŵp newid hinsawdd sy'n cynnwys aelodaeth eang o'r cyrff cyhoeddus sy'n cyfrannu at y gwaith addasu ar gyfer newid hinsawdd, ynghyd â'r mesurau lliniaru.</p> <p>Y camau gweithredu cychwynnol sydd wedi eu hadnabod gan yr is-grŵp yw: Cydweithio hefo'n rhanddeiliaid allweddol a chynllunio mewn modd cydgysylltiedig ar gyfer tywydd eithafol ac effeithiau newid hinsawdd bresennol a'r dyfodol. Golygir hyn gynnal gwaith mapio trylwyr o'r ardaloedd a chartrefi o fewn ein cymunedau, a cheisio cynllunio ar gyfer yr ardaloedd hynny fydd yn wynebu llifogydd. Bydd hyn hefyd yn ystyried yr ardaloedd hynny sydd wedi eu hadnabod ar gyfer cynlluniau newid traethlin.</p> <p>Mae sylw yn ogystal yn cael ei roddi i allyriadau carbon y cyrff cyhoeddus, a bydd yr is-grwpiau yn ystyried sut i leihau allyriadau carbon ar draws eu gweithgareddau.</p>	<p><u>Tymor Byr</u> Cydweithio i ddatblygu cyd-ddealltwriaeth a dod i gonsensws ynglŷn â'r gweithredu mewn perthynas â'r effeithiau newid hinsawdd yn ein cymunedau.</p> <p><u>Tymor Canolig / Tymor Hir</u> Bydd gan y Bwrdd gwell dealltwriaeth o'r risgiau a'r effaith o newid hinsawdd a byddwn wedi cydweithio efo'n cymunedau i godi ymwybyddiaeth a chryfhau gwydnwch a'r sgiliau addasu i'r newidiadau tymor canolig a thymor hir.</p>

Sut byddwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol

Cymru lewyrchus



Cymru gydnherth



Cymru sy'n fwy cyfartal



Cymru o gymunedau cydlynus











Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang













 Cydweithio  Hir-dymor  Atal  Iaith Gymraeg  Cydraddoldeb		
Y Flaenoriaeth	Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Effaith bosib yn y tymor byr, canolig a hir
<p>Effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau – Byddwn yn datblygu'r ddealltwriaeth fanwl o sut mae tlodi yn effeithio ein hardaloedd ac yn ceisio sicrhau bod y gwaith sy'n digwydd yn y maes ar draws y cyrff cyhoeddus yn fwy effeithiol er mwyn lliniaru effaith hir dymor tlodi.</p>	<p>Sefydlwyd is-grŵp tlodi, ac er mwyn datblygu'r ddealltwriaeth o effaith tlodi ar lesiant ein cymunedau cynhaliwyd gweithdy a gwahoddwyd amrediad eang o bartneriaid.</p> <p>Fel man cychwyn mae'r Bwrdd yn edrych ar y gwaith sydd eisoes yn mynd rhagddi o fewn y 2 Awdurdod Lleol, cyn ystyried sut gall y Bwrdd weithio'n fwy integredig a chydlynus.</p>	<p><u>Tymor Byr A Chanolig</u> Bydd gwell dealltwriaeth gan y Bwrdd o anghenion ein cymunedau</p> <p>Darparu / Comisiynu ymyraethau a gwasanaethau sy'n ymateb i'r angen.</p> <p><u>Tymor Hir</u> Partneriaid i weithio'n integredig a fwy effeithiol.</p> <p>Creu cymunedau mwy gwydn sy'n gallu cynnal eu hunain a'u teuluoedd, ac ymdopi gyda rhwystrau a wynebir.</p>
<p>Sut y byddwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol</p>		
<p>  Cymru lewyrchus  Cymru sy'n fwy cyfartal  Cymru o gymunedau cydlynus </p>		

Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu



Amcan 2: Trigolion sy'n iach ac yn annibynnol gyda safon bywyd da

 Cydweithio  Hir-dymor  Integredig  Cynnwys  Atal  Iaith Gymraeg  Cydraddoldeb		
Y Flaenoriaeth	Yr hyn a wnaethpwyd gan y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus	Effaith bosib yn y tymor byr, canolig a hir
<p>Iechyd a gofal oedolion: Byddwn yn cydweithio â'r Bwrdd Partneriaeth Ranbarthol i sicrhau bod y gwasanaethau sy'n cael eu cynllunio ar gyfer y boblogaeth hŷn yn addas ar gyfer anghenion lleol. Byddwn yn cydweithio yn lleol i gynllunio ystod eang o weithgareddau ataliol ar gyfer oedolion er mwyn eu galluogi i fyw yn iach ac annibynnol.</p> <p>Lles a llwyddiant plant a phobl ifanc: Byddwn yn cyd-gynllunio gwasanaethau a gweithgareddau ataliol gefnogi teuluoedd cyn i'r angen am wasanaethau dwys godi. Byddwn yn annog plant, pobl ifanc a'u teuluoedd i wella eu</p>	<p>Mae'r Bwrdd wedi sefydlu Is-grŵp Iechyd a Gofal Cymdeithasol Integredig i Wynedd ac Ynys Môn. Mae'r ddogfen 'Cymru Iachach' yn llywio trefniadau llywodraethu a chynlluniau'r Is-grŵp. Uchelgais y ddogfen yw dod â gwasanaethau iechyd a gofal cymdeithasol ynghyd, er mwyn iddynt gael eu cynllunio a'u darparu yn unol ag anghenion a dewisiadau unigolion.</p> <p>Mae'r is-grŵp wedi cytuno i gydweithio gyda phartneriaid eang a chanolbwyntio ar y meysydd gwaith canlynol, gyda'r ffocws ar wasanaeth ataliol a chydweithio mewn partneriaeth:</p> <ul style="list-style-type: none"> ▪ Gwaith cymunedol trwy glystyrau ▪ Plant a Phobl Ifanc / Cefnogi Teuluoedd ▪ Iechyd Meddwl ▪ Anableddau Dysgu 	<p><u>Tymor Byr</u> Trwy ymgynghori ac ymgysylltu hefo'n trigolion bydd gennym ddealltwriaeth o drefniadau iechyd a gofal sy'n ymateb i anghenion lleol.</p> <p>Bydd trefniadau llywodraethu i gefnogi'r 4 maes gwaith wedi eu sefydlu.</p> <p><u>Tymor Canolig</u> Byddwn yn parhau i weld gwaith yn datblygu yn y 4 maes gwaith a chychwyn y broses o ail-ddylunio'r system iechyd a gofal cymdeithasol.</p> <p><u>Tymor Hir</u> Byddwn yn gweld gweithredu system iechyd a gofal newydd – a fydd yn hyrwyddo iechyd a lles da yn ein cymunedau. Bydd y system yn cynnig amrywiaeth o opsiynau o safon uchel sy'n</p>

hiechyd er mwyn iddynt allu byw yn iach ac annibynnol o fewn eu cymunedau hir dymor		gallu cyfrannu at alluogi trigolion i ddefnyddio eu sgiliau byw yn annibynnol.
Sut y byddwn yn cyfrannu at y Nodau Llesiant Cenedlaethol		
Cymru lewyrchus	 Cymru sy'n fwy cyfartal	 Cymru o gymunedau cydlynus  Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu

Casgliad

Mae'n bleser gan Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Gwynedd ac Ynys Môn gyhoeddi eu hadroddiad blynyddol cyntaf ar gyfer 2018/19. Mae'r uchod yn dystiolaeth fod y Bwrdd fel sefydliadau unigol, ac mewn ymdrechion ar y cyd yn parhau i ymrwymo i wella llesiant Gwynedd ac Ynys Môn. Er bod adnoddau'r cyrff cyhoeddus o dan bwysau a bod bygythiadau pellach o doriadau mae'r Bwrdd yn adnabod cyfleoedd i weithio mewn ffyrdd gwahanol a chyflwyno dulliau arloesol o weithredu. Gyda chefnogaeth y cyrff cyhoeddus a'u staff, ein trigolion a phartneriaid ehangach gallwn barhau ar y daith o greu cymunedau yng Ngwynedd ac Ynys Môn sy'n ffynnu ac yn llewyrchus i'r hir dymor a rhoi cyfle i'n trigolion fyw yn iach ac annibynnol gyda safon bywyd da.